

General Optical Council

# Cynllun Busnes 2025-26



# Ein blaenoriaethau ar gyfer 2025 i gefnogi strategaeth gorfforaethol newydd

Rydym yn rheoleiddio optometryddion, optegwyr cyflenwi, myfyrwyr a rhai busnesau gofal llygaid yn y DU.

Ein gweledigaeth ar gyfer 2030 yw gofal llygaid diogel ac effeithiol i bawb. Ein huchelgais o hyd yw bod yn rheoleiddiwr o'r radd flaenaf, sy'n uchel ei barch ymhlith rhanddeiliaid ac sy'n parhau i fodloni holl Safonau Rheoleiddio Da yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA).

Ein rôl greiddiol yw darparu rheoleiddio ystwyth, cadarn ac effeithiol sy'n diogelu'r cyhoedd drwy gynnal safonau uchel mewn gwasanaethau gofal llygaid, cefnogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal o safon, a diwallu anghenion system iechyd y DU.

Dyma'r cynllun busnes blynyddol cyntaf yn strategaeth gorfforaethol 2025-30, sydd â thri amcan lefel uchel:

- Creu gwasanaethau gofal llygaid tecach a mwy cynhwysol
- Cefnogi arloesedd cyfrifol a diogelu'r cyhoedd
- Atal niwed drwy reoleiddio ystwyth.

Mae'r cynllun busnes hwn ar gyfer 2025-26 yn dangos sut y byddwn yn diogelu'r cyhoedd ac yn sicrhau bod y cofrestryddion yn gallu cyfrannu yn unol â'u galluoedd proffesiynol llawn ym mhob rhan o'r DU.



# Cyflawni ein cyfrifoldebau statudol

**1. Rydym yn gosod safonau ar gyfer perfformiad ac ymddygiad ein cofrestryddion**

Y llynedd fe wnaethom ddiweddaru ein safonau proffesiynol ar gyfer optometryddion ac optegwyr cyflenwi sydd wedi cymhwyso'n llawn a myfyrwyr a gwneud newidiadau canlyniadol i'n safonau ar gyfer busnesau. Byddwn yn datblygu dwy set o ganllawiau i'r cofrestryddion i'w cynorthwyo i ddeall a chymhwyso'r safonau newydd. Bydd y canllawiau hyn yn ymwneud â phynciau cynnal ffiniau rhywiol priodol a gofal i gleifion mewn amgylchiadau bregus. Byddwn hefyd yn diweddaru ein canllawiau presennol ar fynegi barn yn agored ac yn dechrau paratoadau ar gyfer adolygiad sylweddol o'n safonau ar gyfer busnesau sydd wedi cofrestru.

**2. Rydym yn cadw cofrestr o unigolion sy'n gymwys i ymarfer neu hyfforddi fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi, a chyrff corfforaethol sy'n gymwys i weithredu fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi**

Eleni rydym yn disgwyl cofrestru dros 34,000 o unigolion a busnesau. Byddwn hefyd yn cyflwyno gwelliant sylweddol i MyGOC, ein platfform ar-lein i gofrestryddion, er mwyn gwella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu.

**3. Rydym yn cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru**

Eleni byddwn yn cyflwyno prosesau sicrhau ansawdd newydd i gefnogi ein gofynion addysg a hyfforddiant. Byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau sy'n mapio cymwysterau rhyngwladol penodol o'u cymharu â'r gofynion addysg a hyfforddiant ac yn datblygu prosesau ar gyfer darparwyr addysg sy'n dymuno cynnig cymwysterau i ymgeiswyr rhyngwladol.

**4. Rydym yn ymchwilio ac yn gweithredu lle gallai rhywbeth fod yn amharu ar addasrwydd cofrestryddion i ymarfer, hyfforddi neu weithredu busnes**

Byddwn yn parhau i ymwreiddio gwelliannau rydym wedi eu gwneud wrth gyflawni ein swyddogaeth addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys gwireddu manteision ein buddsoddiad yn ddiweddar mewn system reoli achosion ddigidol.



# Cefnogi'r sector i ddarparu gofal llygaid effeithiol

Yn 2025-26 rydym yn disgwyl cyhoeddi canlyniadau ein harolygon blynyddol o fusnesau gofal llygaid, cofrestryddion unigol, a'r cyhoedd. Rydym yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i'n helpu i ddilyn tueddiadau yn y sector a gwyddom fod sefydliadau eraill yn eu defnyddio i ddeall y gweithlu gofal llygaid a disgwyliadau cleifion.

Yn 2025-26 byddwn yn cynnal ein hadolygiad thematig cyntaf o bwnc sydd o ddiddordeb neu sy'n peri pryder. Bydd yr adolygiad thematig yn golygu edrych sut mae nodweddion ein system reoleiddio bresennol, megis safonau, addysg/ DPP, ac addasrwydd i ymarfer yn gweithio er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd. Bydd hefyd yn ceisio deall sut mae'r system y tu hwnt i reoleiddio, gan gynnwys gofynion deddfwriaethol a chontractiol a hunanreoleiddio yn mynd i'r afael â'r risgiau. Byddwn yn defnyddio'r adolygiad hwn i feddwl am argymhellion i'w hystyried gan y sector cyfan.

Bydd ein hadolygiad thematig cyntaf ar bwnc arferion masnachol a diogelwch cleifion yn dilyn pryderon a godwyd yn arolwg cofrestryddion y llynedd ynghylch amseroedd profi byr, yr arfer o roi mwy o enwau nag sy'n rhesymol ar restr clinigau a thargedau gwerthiant. Mae adolygiadau thematig yn ymwneud ag edrych sut mae nodweddion ein system reoleiddio bresennol, megis safonau, addysg/DPP, ac addasrwydd i ymarfer yn gweithio er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd. Maent hefyd yn ceisio deall sut mae'r system y tu hwnt i reoleiddio, gan gynnwys gofynion deddfwriaethol a chontractiol a hunanreoleiddio yn mynd i'r afael â'r risgiau.

Byddwn yn gweinyddu ein cynllun DPP, sy'n rhoi'r gallu i gofrestryddion deilwra eu dysgu a'u datblygiad i gyd-fynd â'u hanghenion, gan wella eu gallu proffesiynol gymaint ag sy'n bosibl. Byddwn yn casglu adborth er mwyn datblygu'r cynllun yn barhaus yn dilyn diwedd cylch 2022-24, yn ogystal ag ystyried opsiynau newid polisi ar gyfer y cynllun DPP ar gyfer 2028 ymlaen. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag ystod eang o unigolion a sefydliadau er mwyn dyfnhau ein dealltwriaeth o'r sector gofal llygaid, gan gynnwys drwy ymweld â gwahanol bractisau a lleoliadau gofal ledled y DU.




# Creu gwasanaethau gofal llygaid tecach a mwy cynhwysol a chyfrannu tuag at yr agenda gofal iechyd ehangach

Byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ein hymchwil i brofiadau personol cleifion a grwpiau cofrestryddion GOC a'r anawsterau maent yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad, defnyddio, neu ddarparu gofal llygaid. Gwyddom o'n hymchwil fod rhai grwpiau o gleifion yn cael mynediad a phrofiadau gwaeth na'i gilydd, a bod grwpiau penodol o gofrestryddion yn fwy tebygol o brofi amodau gwaith heriol a all effeithio ar eu gallu i ddarparu gofal diogel i gleifion. Bydd yr ymchwil hwn yn edrych yn fanylach ar 'brofiadau personol' y grwpiau hyn er mwyn rhoi mwy o wybodaeth a gwell dealltwriaeth i ni, a fydd yn ein helpu ni ac eraill i greu gwasanaethau gofal llygaid tecach a mwy cynhwysol.

Yn 2025-2026 rydym yn disgwyl cwblhau cynigion ar gyfer diwygiadau deddfwriaethol ym maes rheoleiddio busnes. Mae bron i hanner y busnesau yn rhai nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan GOC – mae arnom eisiau cau'r bwlch rheoleiddio hwn, dileu cyfyngiadau diangen ar fusnesau a moderneiddio'r fframwaith rheoleiddio. Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad ffurfiol ar ein cynigion a chanfyddiadau ymchwil gyda chleifion er mwyn cael eu barn.

Byddwn hefyd yn gweithredu ar sail canfyddiadau ymchwil a gomisiynwyd gennym y llynedd er mwyn deall risgiau gwahanol elfennau o beidio â gwneud prawf llygaid yr un pryd, gan yr un unigolyn a/neu yn yr un lle. Gwyddom fod modelau profion llygaid yn amrywio ledled y DU – nid oes model 'safonol' o brawf llygaid ac mae'r gofynion yn amrywio gan ddibynnu ar ofynion contractau GIG y gwledydd. Byddwn yn defnyddio'r ymchwil hwn i ystyried a oes angen i ni ddiweddaru datganiad 2013 ar brofi golwg.



# Cyflawni ein huchelgeisiau

Byddwn yn parhau â'n dyletswydd gyhoeddus a'n hymrwymiad i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI), sy'n sail i'n holl waith. Mae'r cynllun busnes hwn yn digwydd yr un pryd â lansio ein strategaeth EDI ar gyfer 2025-30 i gefnogi'r strategaeth gorfforaethol bum mlynedd. Byddwn yn parhau i gyhoeddi adroddiad blynyddol yn ymdrin â'n gweithgareddau EDI fel cyflogwr a rheoleiddiwr yn ogystal ag ystadegau ar gyfansoddiad demograffig ein cofrestryddion a thegwch ein penderfyniadau rheoleiddio. Byddwn yn parhau i gynnal gweithdrefnau llywodraethu cryf, gan gynnwys gweithredu argymhellion ein hadolygiad Llywodraethu, penodi'r holl aelodau a chefnogi gwaith ein Cyngor a'n pwyllgorau er mwyn sicrhau eu bod yn sail i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud a nodi a rheoli unrhyw risg yn briodol.
Byddwn yn sefydlu Uned Cyflawni Prosiectau fel rhan o bedwaredd cyfarwyddiaeth barhaol newydd er mwyn sicrhau bod ein prosiectau mawr yn cael eu gweithredu'n dda a'u bod yn darparu gwerth am arian.

Byddwn yn edrych ar ffyrdd o gryfhau llais defnyddwyr yn ein prosesau gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod anghenion cleifion a'r cyhoedd yn ganolog i'n dull o reoleiddio.
Byddwn yn diweddaru ein dull o fonitro perfformiad gan gynnwys drwy ddefnyddio basgedaid o ddangosyddion i asesu cynnydd yn erbyn ein tri amcan strategol newydd.
Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein staff â strategaeth pobl newydd a fframwaith ymddygiadau perfformiad newydd er mwyn parhau i adeiladu diwylliant cynhwysol, sy'n ennyn diddordeb, lle bydd pawb yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i fod yn perthyn.

| **Budget 2024-25** | **£000 (thousands)** |
|---|---|
| Income | £12,341 |
| Expenditure | £12,325 |
| **Surplus/(deficit)** | £16 |
| Reserves expenditure | £1,181 |
| **Surplus/(deficit)** | £(1,165) |
| Unrealised investment gains | £221 |
| **Surplus/(deficit)** | £(994) |

Floor 29, One Canada Square | London | E14 5AB
020 7580 3898
www.optical.org
X: @GOC_UK | LinkedIn: General Optical Council

General Optical Council